

**Rhybudd o Orchymyn Gwahardd Cerddwyr Dros Dro**  
**Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 – Adran 14**  
**Llwybr Troed Cyhoeddus Rhif 48 yng Nghymuned y Fflint**

Mae Cyngor Sir y Fflint wedi gwneud Gorchymyn ar 15 Hydref 2019 a fydd yn gwahardd unrhyw gerddwr rhag defnyddio'r rhan honno o Llwybr Troed Cyhoeddus Rhif 48 yng nghymuned y Fflint o'i gyffordd â Coed Onn Road yn NGR 324936 371721 am bellter o oddeutu 475 metr at bwynt NGR 325297 372027.

Bydd mynediad rhwng Caesar Avenue a Croes Atti Lane yn parhau ar agor trwy gydol y cyfnod cau.

Mae angen cau'r llwybr yn yr ardal am ddibenion iechyd a diogelwch tra bod gwaith datblygu'n digwydd ac i hwyluso'r gwaith o greu llwybr troed.

Rhagwelir y bydd y Gorchymyn yn dod i rym ar 18 Hydref 2019, neu cyn gynted â phosibl wedi hynny. Disgwylir i'r llwybr fod ar gau am y cyfnod uchaf posib o chwe mis .

Dyddiedig 18<sup>fed</sup> diwrnod o Hydref 2019



Gareth Owens  
Prif Swyddog (Llywodraethu)

Neuadd y Sir  
Yr Wyddgrug  
Sir y Fflint  
AB/031745